

Brîff Brexit



Plaid Cymru | Party of Wales



Briffiad Brexit #7

Dyma'r seithfed rhifyn o'r Brîff Brexit; gobeithio y gwnewch ei fwynhau. Mae llawer mwy o wybodaeth am yr holl faterion hyn yn Adran Brexit ein gwefan.

Mae tri rhan i'r Brîff:

- 1) Crynhoi o'r Cynulliad
- 2) Newyddion o Brifddinas yr Ymerodraeth (San Steffan)
- 3) O Senedd Ewrop

Os oes gennych unrhyw adborth, rhowch wybod i ni trwy ebostio post@plaid.cymru

Crynhoi o'r Cynulliad

Gan ein llefarydd Brexit yn y Senedd Steffan Lewis AC a'r Tîm Cynulliad



Yr wythnos hon, lansiodd arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood, a'r Prif Weinidog Carwyn Jones [Bapur Gwyn ar y cyd](#) yn gosod allan safbwynt Cymru yn y trafodaethau am dynnu allan o'r UE. Pwysleisiodd y Papur Gwyn bwysigrwydd parhau i gymryd rhan yn y farchnad sengl pan fyddwn yn gadael yr UE er mwyn amddiffyn economi Cymru rhag y difrod a'r ansicrwydd y byddai methu â gallu masnachu'n rhydd gyda'n cymdogion agosaf yn achosi.

Gosododd Leanne Wood allan ei rhesymau dros ymuno â Llywodraeth Cymru i ysgrifennu'r papur [yma](#). Dywed, 'Cafodd Plaid Cymru gyfle i ddylanwadu ar safle Cymru ar Brexit a'i lunio. Pe na baem wedi cymryd y cyfle hwn, buasai llais ein cenedl wedi'i wanhau, gan nad oes gan Lafur fwyaf etholiadol.' Mae'r Papur Gwyn yn nodi symudiad ym mholisi Llywodraeth Cymru. Ym mis Medi, mewn cam a ddisgrifiwyd fel 'y digwyddiad mwyaf brawychus ers datganoli' gan Adam Price AC, ymunodd Llafur Cymru â'r Torïaid ac UKIP i [bleidleisio yn erbyn parhau i gymryd rhan yn y farchnad sengl](#).

Cafodd y Papur Gwyn groeso gan lawer, gan gynnwys Prif Weinidog yr Alban, Nicola Sturgeon, a'i galwodd yn ['gyfraniad o bwys i ddadl Brexit'](#).

Rhoes y Prif Weinidog Theresa May [araith ar 17 Ionawr](#) yn gosod allan yn fras gynllun Brexit Llywodraeth y DG. Yn yr araith, dywedodd y byddai'r Papurau Gwyn o'r Alban a Chymru yn cael eu 'hystyried' fel rhan o broses Brexit. Mae hyn yn newid mewn naws o amser yn gynharach eleni. [Ym mis Gorffennaf](#), dywedodd Theresa May na fyddai'n tanio Erthygl 50 hyd nes y daethpwyd i benderfyniad ar drafodaethau yn cynnwys y DG gyfan. Gyda gwahaniaethau ideolegol sylweddol rhwng y gweinyddiaethau datganoledig a'r Torïaid yn San Steffan, gwahanol fandadau Brexit yng nghenedloedd cyfansoddol y DG, ac etholiad ar y trothwy yng Ngogledd Iwerddon, mae hyn yn edrych fel rhywbeth fydd bron yn amhosib i'w wneud.

Mae'r dyfarniad ar Erthygl 50 yn y Goruchaf Lys yn hynod arwyddocaol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'i le yn fframwaith cyfansoddiadol y DG. Yr oedd y dyfarniad yn unfrydol: ['nid oes rheidrwydd cyfreithiol'](#) ar Lywodraeth y DG i ymgynghori ag ACau ar Brexit. Mae hyn yn dilyn penderfyniad Plaid Cymru i [bleidleisio yn erbyn](#) Mesur Cymru yr wythnos ddiwethaf, gan ei ddisgrifio fel 'tynnu pwerau sylweddol yn ôl ...sydd yn tansilio ewyllys ddemocrataidd pobl yng Nghymru a bleidleisiodd dros fwy o bwerau yn refferendwm 2011.' Dyfarnodd y Goruchaf Lys, dan y pwerau newydd ym Mesur Cymru, nad oes rôl o hyd i ACau ym mhroses Brexit. Dywedodd Steffan Lewis AC y bydd Plaid Cymru yn ceisio rhoi llais i Gymru ar Brexit trwy gyflwyno [Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol](#) yn y Cynulliad.

Yn y cyfamser, mae Steffan Lewis AC wedi anfon neges obeithiol at y sawl sy'n anobeithio am ddyfodol Cymru wedi Brexit. [Dywedodd](#), 'Allwn ni ddim anwybyddu'r bygythiad a wnâi bargaen wael i Gymru. Mae ein heconomi, ein gwasanaethau cyhoeddus, hyd yn oed ein hunaniaeth genedlaethol, oll mewn perygl ym Mhrydain Brexit newydd. Ond allwn ni ddim digalonni. Rhaid i ni barhau â'r frwydr i adeiladu'r genedl flaengar y gall Cymru fod, cenedl sy'n edrych tuag allan. Mae arnom angen mudiad blaengar, cynhwysol sy'n parhau i ddadlau dros berthynas agos Cymru gyda'n cymdogion agosaf a'n cyfeillion yn Ewrop. Mae Plaid Cymru wedi ymrwymo i chwarae ein rhan.'

Newyddion o'r Brifddinas Imperialaidd

gan Lefarydd Brexit Plaid Cymru yn San Steffan Jonathan Edwards AS a'r Tîm



Cafwyd datblygiadau sylweddol ers y Briff Brexit diwethaf bythefnos yn ôl.

[Sicraodd ein llefarydd ar Brexit, Jonathan Edwards, fuddugoliaeth o bwys yn y Pwyllgor dethol ar Adael yr UE](#), trwy ennill pleidlais ar welliant i'w hadroddiad yn galw ar i Lywodraeth DG amlinellu eu safbwynt ar barhau'n aelod o'r farchnad sengl a'r undeb tollau cyn cynnal y bleidlais ar Erthygl 50. Ymddangosodd Jonathan ar Sunday Politics y BBC i fynd trwy oblygiadau'r fuddugoliaeth honno.

Ar 17 Ionawr, gwnaeth y Prif Weinidog araith o bwys, yn rhoi'r syniad manylaf eto am fwriadau'r Llywodraeth. Cyn yr araith hon, [galwodd Jonathan arni i ymrwymo i barhau ag aelodaeth o'r farchnad sengl a'r undeb tollau](#), er mwyn amddiffyn y 200,000 swyddi yng Nghymru sy'n gysylltiedig â masnach gydag Ewrop.

Yn anffodus, cadarnhau'r gwrthwyneb wnaeth araith y Prif Weinidog – y caiff Cymru ei llusgo allan o'r farchnad sengl a'r undeb tollau. [Ymatebodd Jonathan trwy gyhuddo'r Prif Weinidog o roi'r Wladwriaeth Brydeinig ar lwybr tuag at Brexit eithafol](#), ac addo pleidleisio yn erbyn tanio Erthygl 50.

Siaradodd ein llefarydd ar faterion gwledig, Liz Saville Roberts, mewn dadl ar lawr Tŷ'r Cyffredin, [gan rybuddio y bydd Llywodraeth y DG yn gwneud i gymunedau gwledig yr hyn a wnaethant i'r glowyr, ac y gellid difetha'r economi wledig gan Brexit eithafol](#).

Yn dilyn sylwadau gan Arlywydd UDA, Donald Trump, ei fod yn gobeithio cytuno ar fasnach gyda'r Deyrnas Gyfunol "cyn gynted â bo modd", [rhybuddiodd Jonathan y gallai unrhyw gytundebau masnach o'r fath roi ein gwasanaeth iechyd mewn perygl o gael ei breifateiddio](#), a galwodd ar Lywodraeth y DG i sicrhau pobl Cymru a gweddill y wladwriaeth Brydeinig y bydd gwasanaethau cyhoeddus wedi eu heithrio o unrhyw fargeinion masnach Brexit.

Y newyddion mwyaf ers y brîff diwethaf, fodd bynnag, yw fod y Goruchaf Lys wedi rhoi ei ddyfarniad terfynol na all Llywodraeth y DG danio Erthygl 50 heb gefnogaeth Senedd San Steffan.

Dyfarnodd hefyd yn erbyn y llywodraethau datganoledig gan ddweud nad oedd dyletswydd *cyfreithiol* ar Lywodraeth DG i geisio caniatâd y seneddau datganoledig cyn y gall danio Erthygl 50.

Ymatebodd ein harweinydd Seneddol, Hywel Williams, yn syth i'r newydd hwn yn dilyn dyfarniad y Goruchaf Lys, gan ryddhau datganiad arlein ([darllenwch yr ymateb llawn yma](#)) ac ymddangos ar raglen Victoria Derbyshire ar y BBC, yn croesawu'r ffaith y delir Llywodraeth DG i gyfrif gan Senedd y DG ond yn gresynnu na fydd gan y Seneddau datganoledig ran.

Cadarnhaodd y bydd y grŵp Seneddol yn cyflwyno gwelliannau i ddeddfwriaeth Erthygl 50 er mwyn sicrhau y cynrychiolir buddiannau Cymru a'u hadlewyrchu yn y ddeddfwriaeth.

Mae dyfarniad y Goruchaf Lys nad oedd dyletswydd *cyfreithiol* ar Lywodraeth y DG i gynnwys y Seneddau datganoledig yn y bleidlais ar Erthygl 50 yn arwyddocaol. Mae'r amlygu problem y ceisiodd ein ASau ddatrys yn ystod taith Mesur Cymru trwy'r Senedd.

Dywed Confensiwn Sewel, fel y'i gelwir, sydd wedi'i gynnwys ym Mesur Cymru a Deddf yr Alban, na fydd Senedd y DG fel arfer yn deddfu ar faterion datganoledig heb gydsyniad y senedd ddatganoledig dan sylw. Rhaid oedd i'r Goruchaf Lys benderfynu sut i ddehongli 'fel arfer', ac fe wnaethant benderfynu yn y pen draw mai datganiad gwleidyddol, nid cyfreithiol oedd hwn. Pan oedd Mesur Cymru yn pasio trwy'r Senedd, cyflwynodd ein ASu welliannau i symud y geiriau 'fel arfer' o'r cymal hwn, ond yn ofer.

Yr wythnos o'n blaenau

Deallwn y bydd yr wythnosau nesaf o fusnes yn cael eu clirio i wneud lle i Fesur newydd Erthygl 50. Bydd ein tîm Seneddol yn paratoi gwelliannau i'r Mesur er mwyn sicrhau y cynrychiolir buddiannau Cymru a byddwn yn cefnogi gwelliannau gan ein cydweithwyr yn yr SNP ac o bleidiau eraill pan fydd y gwelliannau hynny o les i Gymru.

Fe aiff y Mesur trwy Dŷ'r Cyffredin a'r Arglwyddi, lle bydd Dafydd Wigley yn gwneud popeth yn ei allu, gyda chefnogaeth ein staff Seneddol, i sicrhau y cymerwn bob cyfle i roi llais i Gymru.

Dilynwch [@JonathanPlaid](#) a [@Plaid_Cymru](#) ar Twitter i gael y diweddaraf am waith y grŵp Seneddol ar Brexit.

O Senedd Ewrop

gan Jill Evans ASE & a Thîm Plaid Cymru Ewrop



Mae [ymchwil newydd](#) gan Ffederasiwn y Busnesau Bach (FSB) wedi tanlinellu pwysigrwydd y mynediad rhwyddaf posib i'r farchnad sengl i fusnesau bach yn y DG. Mae'r rhan fwyaf o fusnesau bach ar hyn o bryd yn masnachu gyda 27 Aelod-Wladwriaeth yr UE ac y mae'r fasnach honno yn hanfodol iddynt. Mae angen iddynt gadw'r rhwyddineb masnachu hwnnw heb feichiau gweinyddol nac ariannol newydd. Mae un cwmni o bob pump hefyd yn cyflogi gweithwyr o'r UE, gan gynnwys gweithwyr â sgiliau isel neu ganolig, ac y maent am iddynt aros yn y DG. Mae'r FSB yn cynrychioli dros 99% o holl fusnesau'r sector preifat, felly ni all Llywodraeth y DG anwybyddu'r canfyddiadau pwysig hyn.

Daeth yr un neges o gyfarfod diweddf Jill yn Strasbourg gyda'r gymdeithas gweithgynhyrchwyr Ewropeaidd EEF. I wneuthurwyr ac allforwyr y DG, rhaid i'r trafodaethau ar adael sicrhau mynediad di-dariff at y farchnad sengl. Cred EEF y dylai'r DG fod yn barod i dalu i mewn i'r UE er mwyn cyrraedd y farchnad fwyaf ar stepen eu drws. Maent hefyd yn tynnu sylw at rwystrau a rheoliadau di-dariff, sydd yn gynyddol bwysig mewn cytundebau masnach. Bydd rheoliadau'r UE yn gymwys ymhell i'r dyfodol, pa bynnag gytundeb a wneir, oherwydd bod cyfreithiau'r DG a'r UE mor agos ynghlwm.

Mae Cymru wedi elwa yn enfawr o'r Banc Buddsoddi Ewropeaidd – banc yr UE. Ieuan Wyn Jones oedd gweinidog cyntaf Llywodraeth Cymru i gyrchu cyllid trwy'r BBE ar gyfer cynlluniau i gadw pobl mewn swyddi a helpu pobl a gollodd eu gwaith i ddod o hyd i swyddi newydd. Cafodd campws ardderchog newydd Prifysgol Abertawe ei gefnogi gan arian y BBE, ynghyd â llawer o brosiectau ynni a seilwaith. Mae cwestiynau yn awr yn cael eu gofyn, gyda phobl yn holi a fydd Cymru yn dal i allu cael mynediad at fenthyciadau BBE. Dywedodd llywydd y banc yr wythnos hon ei bod yn glir yn y cytundebau fod y cyfranddalwyr yn aelodau o'r UE. Y mae cyfranddaliad y DG ar hyn o bryd yn 16%, ond wŷr neb beth fydd yn digwydd pan adawn yr UE. Y mae'r BBE yn buddsoddi mewn gwledydd y tu allan i'r UE megis Norwy, ond y mae'n atebol yn gyntaf i ddinasyddion yr UE. Mae benthyca yn y DG ar hyn o bryd 44 gwaith yn uwch

nag yn Norwy. Mae Jill wrthi yn ysgrifennu adroddiad i'w Pwyllgor Diwylliant ar weithredu'r Gronfa Fuddsoddi Ewropeaidd a weinyddir gan y BBE.

Mae'r wythnos hon yn nodi 30 mlynedd ers cychwyn rhaglen Erasmus, un o brif raglenni symudedd yr UE sydd mor bwysig i'n pobl ifanc ac i'n prifysgolion. Dros y blynyddoedd, mae wedi helpu i roi i filoedd o bobl ifanc yng Nghymru fwy o gyfleoedd am swyddi, agor eu meddyliau i ddiwylliannau newydd, ac wedi meithrin cyfeillgarwch dros Ewrop gyfan. Yn ystod 2014 yn unig, cymerodd dros 2,000 o Gymry ran mewn rhaglenni cyfnewid rhyngwladol. Fel y canfu Jill fel aelod o bwyllgor Diwylliant ac Addysg y Senedd, mae ASE o bob cenedl a lliw gwleidyddol yn frwd dros sicrhau parhad cyfraniad Cymru a'r DG i'r rhaglen bwysig hon. Mae digwyddiadau dathlu'r rhaglen yn Senedd Ewrop yr wythnos hon yn cynnwys nid yn unig ddinasyddion yr UE, ond hefyd bobl o wledydd fel Norwy, Twrci a Macedonia, gan fod Erasmus+ yn ymestyn y tu hwnt i'r UE. Does dim rheswm da, felly, pam y dylai pobl ifanc Cymru fod ar eu colled o gyfrannu i'r rhaglenni diwylliannol gwerthfawr hyn wedi i'r DG adael yr UE.